


## Beth yw sglodion pren o ganghennau ifanc (Ramial)?

Sglodion pren a gynhrychir o ganghennau rhywogaethau coed/gwrychoedd ifanc sydd newydd eu torri, gan ddefnyddio canghennau gyda diameter fel arfer yn llai na 7 cm (3"). Ystyrir mai'r rhannau hyn o'r planhigion yw'r mwyaf maethlon, yn llawn maethynnau, siwgr, protein, seliwlos a lignin, o'i gymharu â rhisgl, llwch llif, pren o fonion a gwastraff pren arall. Mae'r arfer o ddefnyddio'r sglodion pren hyn yn hanu o dechnegau a ddatblygwyd yn Quebec, gan anelu at wneud defnydd o wastraff coedwigaeth, dull a gefnogwyd gan yr arloeswr Gilles Lemieux.



## Pam defnyddio canghennau llai ac iau?

Wrth i ganghennau aeddfedu, mae newidiadau'n digwydd yng nghymarebau C:N (carbon:nitrogen) y deunydd organig. Mae'r newidiadau hyn yn dylanwadu ar ddadelfeniad a diraddiad pan gaiff y deunyddiau hyn eu gwasgaru ar y pridd. Mae hyn yn berthnasol wrth ddefnyddio sglodion pren ar y pridd neu eu defnyddio fel tomwellt, yn ogystal ag yn y broses gompostio.



Mae cymarebau C:N uwch yn golygu bod micro-organebau angen mwy o N i ddiraddio cyfansoddion sy'n uchel mewn C. Mae micro-organebau'r pridd wedyn yn cystadlu gyda phlanhigion ar gyfer yr N sydd ar gael, gan arwain at ddiffyg N cychwynnol.

## Defnydd o sglodion pren Ramial

Mae sglodion pren ramial fel arfer yn cael eu hychwanegu'n uniongyrchol i'r pridd, eu defnyddio fel tomwellt, neu'n cael eu compostio



Ar gyfer trin neu gompostio, mae'n bosibl y dylid ystyried ychwanegu nitrogen



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswilt  
**FFERMIO**

Nodwyd fod sglodion pren ramial a ddefnyddir fel tomwellt lluosflwydd yn gweithio'n dda ar gyfer atal chwyn llydanddail.



Noder – mae sglodion pren Ramial wedi cael eu hymchwilio'n fwy manwl mewn hinsoddau trofannol sych lle maent yn cynyddu gallu'r pridd i gadw lleithder, gan gynyddu cynnyrch cnydau ynghyd â chynnig buddion o ran tymheredd y pridd, fel unrhyw domwellt.

*'ail-greu pridd coedwig ar bridd amaethyddol, heb y coed' - Gilles Lemieux*

### Dewis coed

Ychydig o wybodaeth sydd ar gael o ran y rhywogaeth ddelfrydol o goed i'w defnyddio ar gyfer sglodion pren ramial. Mae nifer o arferion yn dibynnu ar gyfuniad o ffynonellau sydd ar gael yn lleol. Fodd bynnag, awgrymir y canlynol:

- Rhywogaethau uchel mewn lignin (Derw, Helyg, Onnen, Bedw)
- Ystyriwch rywogaethau coed uchafbwyntiol (Derw, Ffawydd)
- Casglu a gwasgaru yn yr Hydref (coed yn colli dail ac yn helpu i ddadelfennu)
- Lleihau % y coed conwydd o ganlyniad i asidedd ac effeithiau ar gyfyngu ar dwf
- Dewiswch ffynhonnell leol i sicrhau cynaliadwyedd

Mae astudiaethau'n dangos bod y deunydd a ddefnyddir i greu sglodion pren ramial yn dylanwadu ar ei effaith fel ychwanegyn i'r pridd neu fel compost. Fodd bynnag, ychydig iawn o waith ymchwil sydd wedi cael ei wneud yn edrych ar wahanol rywogaethau.

### Sglodion pren ramial ar gyfer cynaliadwyedd



**BUILDING  
SOIL HEALTH**

Mae sglodion pren ramial yn gwella ffrwythlondeb trwy weithredu fel ffynhonnell wych o ddadelfennu ar gyfer ffyngau Basidiomycetau. Mae'r ffyngau hyn yn rhyddhau maethynnau sydd o fudd i gydrannau eraill o ficrobiom y pridd, ac felly'n gwella iechyd cyffredinol y pridd. Mae'r broses hon yn gwella gwytnwch a chynhyrchiant y pridd, gan gyfrannu at gynydd yng nghynaliadwyedd lleiniau amaethyddol a gerddi marchnad.

Gallai cyrchu sglodion pren ramial effeithio ar gynaliadwyedd, yn enwedig o ystyried bod 5-10cm o ddyfnder tomwellt yn defnyddio llawer iawn o ddeunydd crai. Os yw cyrchu sglodion pren Ramial yn arwain at sgil-gynhyrchion y gellid eu defnyddio mewn mannau eraill, megis llosgi mewn systemau gwres a phŵer cyfun i gynhyrchu gwres ar gyfer y tŷ gwydr neu gartref, ynghyd â chynhyrchu trydan, mae hyn yn fwy cymhleth.

Gallwch gynhyrchu sglodion pren ramial trwy brysgoedio a thocio'n rheolaidd os gallwch chi greu cysylltiadau gyda ffermwyr, coedwigwyr, tyfwyr coed, tirlunwyr, os ydych yn gofalu am eich coed a'ch gwrychoedd eich hunain, neu'n bwriadu tyfu prysgwydd ar gylchdro byr. Bydd defnyddio dull cylchol yn cyfrannu at gynaliadwyedd cyffredinol coedydd ramial



### Wedi'i gymharu â chompost eraill

Awgrymir bod sglodion pren ramial yn chwarae rhan debyg i gompost cyffredinol eraill

- Maent yn gwella gallu'r pridd i ddal-dŵr ac yn sefydlogi nitrogen
- Cyfradd rhyddhau maetholion tebyg (mae sglodion pren ramial o bosibl yn rhyddhau maetholion yn fwy graddol)
- Tyfiant planhigion tebyg (er mae rhai astudiaethau'n dangos ychydig o well diogelwch i bathogenau a phlâu gan sglodion pren Ramial)

Gallant hefyd gael eu defnyddio gan eu bod yn cynnwys fwy o gynnwys C i helpu i gydbwysu'r compost sydd â lefel uchel o gynnwys N er mwyn cael cynhyrchiad compost cymysg gwell yn gyffredinol.



### Wedi'i gymharu â sglodion pren eraill

Yn gyffredinol, mae'n dangos lefelau tebyg o lwyddiant i domwellt eraill, gan ddangos ei fod yn darparu gwerth maetholion a ryddheir arafach o'i gymharu â deunyddiau eraill sydd â chymhareb C:N uwch, megis rhisgl a gwellt. Mae hyn felly'n awgrymu potensial ar gyfer gwelliannau hirdymor i dyfiant planhigion ac iechyd y pridd.

### Ystyriaethau terfynol

- A oes costau ac anawsterau wrth gyrchu sglodion pren Ramial? A yw'n werth y gwelliannau bychain posibl a awgrymir mewn astudiaethau?
- Yn fwyaf effeithiol pan fo arbedion maint yn bosibl
- Daw'r buddion mwyaf ar ffurf effaith ar y pridd, felly mae'n well ar gyfer gerddi marchnad a lleiniau yn hytrach na phlanhigion mewn potiau

Rydym hefyd yn argymhell y dylech ddarllen y [daflen ffeithiau hon](#)

### Cyfeiriadau

Fontana (2023) <https://doi.org/10.1016/j.eti.2023.103143>  
Daassi (2020) <https://doi.org/10.1016/j.indcrop.2020.112880>  
Soumare (2002) <https://doi.org/10.1080/01448765.2002.9754955>  
Lalande (2009) <https://doi.org/10.1017/S0889189300007815>  
Lemieux & Germanin (2000) [Ramial Chipped Wood: the Clue to a Sustainable Fertile Soil](#)  
Barthes (2023) <https://doi.org/10.1007/s10457-014-9743-0>  
WOOF project <https://agriculture.co.uk/research-projects/woodchip-fertile-soils-woofs/>